

Ticagrelor i atal digwyddiadau atherothrombotig ar ôl cnawdnychiad myocardaidd

Rhagfyr 2016

Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Argymhellir ticagrelor (Brilique) ar y cyd ag aspirin. Mae'n driniaeth bosibl ar gyfer oedolion sydd wedi cael trawiad ar y galon ac sydd â risg uchel o gael strociau neu drawiadau pellach ar y galon.

Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Os ydych wedi cael trawiad ar y galon, a bod eich meddyg yn credu mai ticagrelor ar y cyd ag aspirin yw'r driniaeth gywir i chi, dylech allu ei chael ar y GIG.

Dylai ticagrelor fod ar gael ar y GIG o fewn 3 mis.

Y cyflwr a'r driniaeth

Dros amser, gall dyddodion brasterog (o'r enw placiau) gronni yn y rhydweliâu. Mae'r rhain yn cyfyngu ar lif y gwaed ac yn cynyddu'r risg o dorthenni, a all achosi trawiadau ar y galon (a elwir weithiau'n gnawdnychiad myocardaidd) a strociau.

Weithiau, gall plac ddatgysylltu oddi wrth wal y rhydweli ac achosi rhwystr ei hun. Gelwir trawiadau ar y galon a strociau a achoswyd gan rwystr plac yn ddigwyddiad atherothrombotig.

Mae ticagrelor yn gyffur sy'n helpu i atal torthenni gwaed a phlaciau rhag ffurfio.

Gall [NHS Choices](#) fod yn fan da i gael gwybod mwy.

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

- [Sefydliad Prydeinig y Galon](#), 0300 330 3311
- [Pumping Marvellous](#), 0800 978 8133
- [HEART UK: Yr Elusen Golesterol](#), 0345 450 5988
- [Cymdeithas Cleifion y Galon Prydain \(BCPA\)](#), 01223 846845

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-2317-5